CYNGOR CYMUNED PISTYLL
COFNODION - CYFARFOD RHAGFYR
Cadeirydd – Sara Williams

DYDDIAD	**Nos Fawrth – 8fed o Ragfyr, 2020**
AMSER	**7 y.h. – Cyfarfod llawn y Cyngor**
LLEOLIAD	**Cyfarfod Rhithiol drwy Zoom**

1.	**CROESO**
	Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod a diolchodd i GJ am ei waith caled wrth gwbwlhau tocio'r gwrychoedd oedd wedi gor dyfu wrth Carnguwch Bach. **YN BRESENNOL**: Sara Williams **(SW),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Cyng. Aled Jones **(AJ),** Ynyr Ellis **(YE)**, Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**. Ymddiheurodd y Clerc am newidiadau i drefniadau gwreiddiol y cyfarfod ac esboniodd ei bod wedi derbyn gwybodaeth gan SP bod cyfyngiadau Covid a gwaith sydd yn cael ei gynnal yn y Ganolfan yn arbed y cyfarfod fynd yn ei flaen yn y Ganolfan henno.
2.	**YMDDIHEURIADAU**
	John Owen **(JO),** William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**.
3.	**DATGAN DIDDORDEB**
	Dim
4.	**DIWEDDARIADAU ASEDAU**
	Nodwyd bod cyflwr cwbwl yr asedau yn foddhaol.
5.	**COFNODION CYFARFOD TACHWEDD, 2020**
	a) **<u>Cyflwyno a mabwysiadu</u>** Cynnigiodd GW gywirdeb y cofnodion gyda GJ yn eilio SP • nid oedd yn glir yn y cofnodion bod y Clerc I gysylltu ar swyddog monitor am temlped lythur • Nid oedd yn glir bod y Cyngor wedi cytuno bod llythur llithfaen I roi cais am gymorth yn mis Mawrth • Nid SP oedd wedi cynnig archebu prynnu biniau 25lts ond GW **b)** **<u>Materion yn codi</u>** Dim

6.	**GÔR YRRU YN YR ARDAL**
	Derbynwyd wybodaeth am wirfoddolwyr i'r Cynllun yn dilyn hysbysiad SP ac LJ yn y Siop a throfodwyd y camau nesaf. Penderfynwyd I'r Clerc gysylltu gyda Rheolwr Gwylio Cyflymder Cymunedol yr Heddlu i ofyn am arweiniad pellach.
7.	**CEISIADAU CYNLLUNIO**
	Dim
8.	**GWERSYLLA YN Y MAES PARCIO**
	Yn ystod cyfarfod Tachwedd roedd y Cyngor wedi gofyn i'r Clerc gysylltu a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd i ofyn iddo am gymorth a thempled llythur. Esboniodd y Clerc bod y cyfeiriad oedd wedi ei dderbyn yn ystod cyfarfod yn anghywir ac ei bod wedi methu ei gysylltu drwy Galw Gwynedd oherwydd Cyfarfodydd ac yn y blaen. Gobeithiodd cael diweddariad erbyn cyfarfod Ionawr.
9.	**BINIAU BAW CI**
	Roedd y Clerc wedi archebu 2 fin baw ci yn ystod y mis ac GJ wedi ei gosod yn y lleoliadau priodol. Diolchodd y Cadeirydd iddo eto am ei gefnogaeth. Cynnigiodd LJ bod y Cyngor yn ychwannegu arwyddion dwyieithog ar y biniau. Y clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd i ofyn os oes arwyddion i'w archebu.
10.	**Y GANOLFAN**
	Yn ystod y mis roedd y Clerc wedi gyrru i ymddiheuro gyda'r aelodau am gamddallt e.bost gan Gyfreithiwr Cyngor Gwynedd ac wedi gofyn iddynt yng nghyfarfod Tachwedd gadarnhau amlinell ffin y Ganolfan yn hytrach nac amlinell y manau parcio. Gan nad oes manau parcio wedi amlinellu yn y maes parcio gwirfoddolodd SP gysylltu gyda'r Cyfreithiwr
11.	**MATERION LLEOL**
	Dim
12.	**PRAESEPT 2021.22**
	Yn dilyn trafodaeth ar oblygiadau'r Cyngor penderfynwyd godi'r Praesept i £12,000.00 gyda GW yn cynnig ac LJ yn eilio.

Llofnodwyd gan.....Dyddiad.....

13.	**GOHEBIAETH A GWYBODAETH**

a) RHYBUDD TWYLL COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU
Wedi ei rannu o flaen llaw. Ni dderbynwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.

b) GRANT ADFER GWIRFODDOLI
Wedi ei rannu o flaen llaw. Ni dderbynwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.

c) GWIRFODDOLWYR CYNLLYN GWYLIO CYFLYMDER CYMUNEDOL
Gweler pwynt 6.

d) YMGYRCH GALW GOFALWYR
Wedi ei rannu o flaen llaw. Ni dderbynwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.

e) GRANT CHWARAE AR GYFER PARCIAU CHWARAE
Wedi ei rannu o flaen llaw. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu ac aelod o Bwyllgor y Cae chawarae i gadarnhau cefnogaeth y Cyngor Cymuned.

f) SYLFAEN DRETH A PRAESEPT 2021.22
Wedi ei rhannu o flaen llaw. Ni dderbynwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.

g) DIWEDDARIAD LLIFOGYDD A TAN 15 GAN GOV. WALES
Wedi ei rhannu o flaen llaw. Ni dderbynwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.

14.	**CYLLID**

a) CYFRIFON 2020/21
Adolygwyd a chymeradwywyd y Llyfr arian a Chysoniad banc.

b) TRAFODION Y GYFRIFLEN BANC DIWEDDARAF

Cyfrif Cyfredol		
Taliadau -	£168.00	Archwilwyr Mewnol Cyngor Gwynedd
	£160.00	Cyflog y Clerc
	£19.90	Treuliau'r Clerc
Balans 30 Tachwedd 2020		**£9.140.97**

Cyfrif Cadw	
Derbyniadau -	0.00
Balans 6 Tachwedd 2020 -	**£2,660.59**

c) TALIADAU A GYMERADWYWYD YN Y CYFARFOD

Llofnodwyd gan.....Dyddiad.....

		£218.04	Glasdon UK Ltd (Biniau Baw Ci)
		£160.00	Cyflog y CLerc
		£20.15	Treuliau'r Clerc
15.	**TREFNIADAU A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**		
	Ionawr y 12eg 2021 ar lein		

Llofnodwyd gan.....Dyddiad.....

Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas *E.bost: ccpistyll@outlook.com*
1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP *Ffon symudol: 07979438307*